Cyllid & Thollau EF

# Nodiadau: Ffurflen Dreth

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026 (2025-26)

# Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi eich Ffurflen Dreth

Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu i lenwi eich Ffurflen Dreth ar bapur. Fel arall, pam na ewch chi ati i gyflwyno ar-lein? Oherwydd:

- mae'n gyflym, yn hawdd ac yn ddiogel
- bydd gennych 3 mis ychwanegol i'w chyflwyno
- does dim rhaid i chi ei llenwi i gyd ar unwaith – os dymunwch, gallwch gadw eich manylion a llenwi'r ffurflen yn nes ymlaen

> I gael rhagor o wybodaeth am Hunanasesiad Ar-lein, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-treth-hunanasesiad

Os nad ydych wedi llenwi Ffurflen Dreth ar-lein o'r blaen, ewch i www.gov.uk/cyflwyno-ch-ffurflen-dreth-hunanasesiad-ar-lein.

> Os nad ydych yn credu bod angen llenwi Ffurflen Dreth arnoch ar gyfer eleni, ewch i www.gov.uk/gwirio-angen-ffurflen-dreth

> Os nad oes angen i chi lenwi Ffurflen Dreth, mae'n rhaid i chi gysylltu â ni erbyn 31 Ionawr 2027 er mwyn osgoi cosbau

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn eich Ffurflen Dreth | TRG 2 |
| Dechrau ar eich Ffurflen Dreth | TRG 5 |
| Incwm | TRG 5 |
| Rhyddhad treth | TRG 10 |
| Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr a Benthyciad Ôl-raddedig | TRG 13 |
| Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel | TRG 13 |
| Taliad Tanwydd Gaeaf (WFP) a Thaliad Gwresogi Gaeaf i Bobl o Oedran Pensiwn (PAWHP) | TRG 14 |
| Lwfans Priodasol | TRG 14 |
| Gorffen eich Ffurflen Dreth | TRG 15 |
| Llofnodi eich ffurflen a'i dychwelyd | TRG 16 |
| Canllaw bras i'ch bil treth | TRG 18 |


## Dyddiadau cau'r Ffurflen Dreth a chosbau

Os ydych:

- am lenwi Ffurflen Dreth ar bapur, rhaid i ni ei chael erbyn 31 Hydref 2026 (neu 3 mis ar ôl y dyddiad ar eich hysbysiad i lenwi Ffurflen Dreth os yw hynny'n hwyrach)
- yn penderfynu llenwi eich Ffurflen Dreth ar-lein neu os ydych yn methu'r dyddiad cau ar gyfer y Ffurflen Dreth ar bapur, mae'n rhaid i chi ei chyflwyno ar-lein erbyn 31 Ionawr 2027 (neu 3 mis ar ôl y dyddiad ar eich hysbysiad i lenwi Ffurflen Dreth os yw hynny'n hwyrach). Os ydych am i ni ddefnyddio eich cod treth i gasglu unrhyw dreth sy'n ddyledus drwy eich cyflog neu eich pensiwn, bydd angen i chi gyflwyno ar-lein erbyn 30 Rhagfyr 2026

Y dyddiad cau ar gyfer talu'ch bil treth, neu unrhyw Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 2, yw 31 Ionawr 2027.

Os nad yw'ch Ffurflen Dreth yn dod i law erbyn y dyddiadau cau, bydd yn rhaid i chi dalu cosb o £100 – hyd yn oed os nad oes arnoch unrhyw dreth. Codwn gosbau pellach arnoch os yw'ch Ffurflen Dreth yn fwy na 3, 6 a 12 mis yn hwyr.

> I gael rhagor o wybodaeth am gosbau, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-treth-hunanasesiad/cosbau

## Cyn i chi ddechrau

Efallai y bydd angen y dogfennau canlynol arnoch i'ch helpu i lenwi'r Ffurflen Dreth:

- eich ffurflenni P60, 'Tystysgrif diwedd blwyddyn', P11D, 'Treuliau a buddiannau', neu P45, 'Manylion cyflogai'n gadael gwaith', slipiau cyflog neu'ch P2, 'Hysbysiad Cod Treth'
- os ydych yn gweithio i chi'ch hun, eich cyfrif elw a cholled neu eich cofnodion busnes
- eich cyfriflenni banc, llyfrau cyfrif cymdeithas adeiladu, bonion difidend neu atodlenni buddsoddiadau drwy frocer
- tystysgrifau cyfraniadau pensiwn personol

Peidiwch ag anfon derbynebau, cyfrifon nac unrhyw waith papur neu ohebiaeth arall gyda'ch Ffurflen Dreth, oni bai ein bod yn gofyn amdanynt. Os gwnewch hynny, bydd yn cymryd yn hirach i ddelio â'ch Ffurflen Dreth a bydd oedi wrth brosesu unrhyw ad-daliad a allai fod yn ddyledus i chi.

## Sut i lenwi eich Ffurflen Dreth

Os byddwch yn llenwi Ffurflen Dreth ar bapur, a fyddwch cystal â:

- darllen yr adran 'Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cyflwyno ar-lein' ar flaen y ffurflen
- nodi eich ffigurau'n ofalus – os gwnewch gamgymeriad, rhowch linell drwy'r gwall a rhowch y manylion cywir wrth ymyl y blwch. Fel arall, mae'n bosibl y gofynnwn i chi dalu gormod o dreth

Os ydych yn gofyn i rywun arall lenwi eich Ffurflen Dreth, rydych chi'n dal i fod yn gyfrifol am yr wybodaeth arni. A rhaid i chi lofnodi'r ffurflen.

## Yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn eich Ffurflen Dreth

Rydym wedi anfon Ffurflen Dreth y credwn sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau personol. Ond rhaid i chi wneud yn siŵr fod gan y ffurflen yr holl dudalennau atodol perthnasol.

Darllenwch 2 dudalen gyntaf eich Ffurflen Dreth (a darllenwch nodiadau 1 i 9) cyn i chi lenwi'r ffurflen. Os rhowch 'X' yn unrhyw un o'r blychau cadarnhaol ar dudalen TR 2, rhaid i chi lenwi ac anfon y tudalennau atodol ar gyfer yr incwm neu'r ennill hwnnw hefyd. Os na wnewch hynny, byddwn yn trin eich Ffurflen Dreth fel pe bai heb ei llenwi ac yn ei hanfon yn ôl atoch.

> Os byddwch angen tudalennau atodol a nodiadau i'ch helpu i'w llenwi, gallwch eu hargraffu o'n gwefan. Ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

### 1 Cyflogaeth

Llenwch y tudalennau 'Cyflogaeth':

- os oeddech wedi eich cyflogi ar sail rhan amser, amser llawn neu'n achlysurol
- os cawsoch incwm fel cyfarwyddwr cwmni
- os oeddech yn ddeiliad swydd, er enghraifft, cadeirydd, ysgrifennydd neu drysorydd ac wedi cael incwm ar gyfer y gwaith hwnnw
- os gwnaethoch weithio i 1 person drwy gwmni neu bartneriaeth arall, er enghraifft, gwaith asiantaeth
- os oeddech yn breswylydd yn y DU, a cawsoch incwm o unrhyw gyflogaeth dramor

Os oeddech yn is-gontractwr yn gweithio yn y diwydiant adeiladu, peidiwch â chynnwys yr incwm hwnnw ar dudalen 'Cyflogaeth', gweler '2 Hunangyflogaeth'.

Bydd angen tudalen 'Cyflogaeth' ar wahân ar gyfer pob cyflogaeth, swydd, neu swydd fel cyfarwyddwr.

### 2 Hunangyflogaeth

Llenwch y tudalennau 'Hunangyflogaeth' os oeddech yn gweithio i chi'ch hun neu os oeddech yn is-gontractwr yn gweithio yn y diwydiant adeiladu, a bod cyfanswm y trosiant a fyddai'n cael ei drethu yn ystod y flwyddyn o'ch holl fusnesau dros £1,000.

Os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar gyfer hunangyflogaeth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 2, rhaid i chi wneud hynny nawr.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/gweithio-i-chi-eich-hun

**Lwfans Incwm Masnachu**

Os nad yw'ch derbyniadau cyfunol o hunangyflogaeth (ac eithrio masnachau Rhentu Ystafell) ac incwm amrywiol penodol (darllenwch dudalen TRG 9, Blwch 17 'Incwm trethadwy arall') yn fwy na £1,000, maent wedi'u hesemptio rhag treth ac nid oes angen rhoi gwybod amdanynt ar Ffurflen Dreth oni bai bod y derbyniadau'n deillio o barti cysylltiedig.

Os yw'ch incwm yn £1,000 neu lai, efallai y byddwch yn dewis llenwi'r tudalennau 'Hunangyflogaeth' os:

- yw'ch treuliau caniataol yn uwch na'ch trosiant ac rydych am hawlio rhyddhad ar y golled neu gario colled ymlaen i'w defnyddio yn erbyn elw yn y dyfodol
- ydych yn disgwyl i'ch trosiant fod yn fwy na £1,000 yn y flwyddyn dreth nesaf
- ydych am dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 yn wirfoddol er mwyn cronni hawl i fudd-daliadau cyfraniadol megis Pensiwn y Wladwriaeth
- ydych am gadw'ch cofnod o hunangyflogaeth, er enghraifft er mwyn ategu cais am Lwfans Mamolaeth
- ydych am hawlio Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth ar sail eich incwm o hunangyflogaeth
- ydych yn is-gontractwr ac am adennill y dreth a ddidynnwyd o dan Gynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS).

> I gael rhagor o wybodaeth am lwfans incwm masnachu, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-free-allowances-on-property-and-trading-income

Mae 2 fath o dudalennau 'Hunangyflogaeth'.
Os yw'ch busnes:

- yn syml a bod eich trosiant blynyddol yn llai na £90,000 defnyddiwch y tudalennau 'Hunangyflogaeth (byr)'
- yn fwy cymhleth, neu roedd eich trosiant blynyddol yn £90,000 neu fwy, defnyddiwch y tudalennau 'Hunangyflogaeth (llawn)'

Bydd angen tudalennau 'Hunangyflogaeth' ar wahân ar gyfer pob busnes.

Os yw'ch busnes yn cael ei gynnal y tu allan i'r DU yn gyfan gwbl, a'ch bod wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati', dylech lenwi'r tudalennau 'Hunangyflogaeth (llawn)' i roi gwybod am yr incwm tramor yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer o dan y gyfundrefn FIG, ac i wneud yr hawliad hwnnw.

Os buoch yn gweithio gyda rhywun arall mewn partneriaeth, defnyddiwch y tudalennau 'Partneriaeth'.

## 3 Partneriaeth

Mae 2 fath o dudalennau 'Partneriaeth' – rhai byr a rhai llawn. Bydd yn rhaid i bob partner lenwi tudalennau 'Partneriaeth' ei hunan, a bydd rhaid i un partner (y partner 'enwebedig') hefyd lenwi'r SA800, 'Ffurflen Dreth Partneriaeth'.

Os oes gennych incwm o bartneriaeth dramor, a'ch bod chi wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati', dylech lenwi'r tudalennau 'Partneriaeth (llawn)' i roi gwybod am yr incwm tramor yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer o dan y gyfundrefn FIG, ac i wneud yr hawliad hwnnw.

## 4 Eiddo yn y DU

Llenwch y tudalennau 'Eiddo yn y DU' os ydych yn cael incwm o'r canlynol:

- rhentu eiddo yn y DU, gan gynnwys rhent o'r tir rydych yn berchen arno neu'n ei brydlesu
- gosod ystafelloedd wedi'u dodrefnu yn eich cartref eich hun (ond os ydych yn darparu prydau bwyd a gwasanaethau eraill, bydd angen i chi lenwi'r tudalennau 'Hunangyflogaeth')

o dros £1,000 (gan gynnwys unrhyw incwm gan fusnes eiddo tramor a ddatganwyd yn y tudalennau 'Tramor').

### Lwfans Incwm o Eiddo

Os nad yw cyfanswm eich incwm o eiddo (ac eithrio incwm sy'n gymwys i gael rhyddhad Rhentu Ystafell) yn fwy na £1,000, mae wedi'i esemptio rhag treth ac nid oes angen rhoi gwybod amdano ar Ffurflen Dreth oni bai fod yr incwm yn deillio o barti cysylltiedig.

Os nad yw'ch incwm yn fwy na £1,000, efallai y byddwch yn dewis llenwi'r tudalennau 'Eiddo yn y DU' os:

- yw'ch treuliau caniataol yn uwch na'ch incwm o eiddo ac rydych am hawlio rhyddhad ar y golled neu gario colled ymlaen i'w defnyddio yn erbyn elw yn y dyfodol
- ydych yn landlord dibreswyl ac rydych am adennill treth a dalwyd (ym mlwch 21), o dan y cynllun landlordiaid dibreswyl

Os ydych yn hawlio'r rhyddhad Rhentu Ystafell, ni allwch hawlio'r lwfans incwm o eiddo ar eich incwm Rhentu Ystafell hefyd.

> I gael rhagor o wybodaeth am y lwfans incwm o eiddo, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-free-allowances-on-property-and-trading-income

## 5 Tramor

Defnyddiwch y tudalennau 'Tramor' os cawsoch:

- llog (dros £2,000) ac incwm o gynilion tramor
- difidendau (dros £500) o gwmnïau tramor – os mai llog tramor nas trethwyd hyd at £2,000, a/neu ddifidendau tramor hyd at £500 oedd eich unig incwm tramor, gallwch roi'r symiau hyn ym mlwch 3 a blwch 5 ar dudalen TR 3 eich Ffurflen Dreth yn hytrach na llenwi'r tudalennau 'Tramor' (yn amodol ar yr arweiniad ar dudalennau TRG 5 a 6) – fodd bynnag, os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026, a'ch bod am hawlio ar gyfer y symiau hyn, bydd angen i chi eu nodi ar y tudalennau 'Tramor' yn hytrach na TR 3
- dosraniadau ac 'incwm a ddatganwyd' sydd dros ben o gronfeydd alltraeth dynodol – dyma incwm sy'n cronni mewn cronfeydd alltraeth nad ydych wedi ei gael hyd yn hyn, gweler HS265 i gael rhagor o wybodaeth
- pensiynau tramor (gan gynnwys cyfandaliadau trethadwy o gynlluniau tramor sy'n cael eu trin fel incwm pensiwn), budd-daliadau nawdd cymdeithasol a breindaliadau
- incwm o dir ac eiddo tramor sydd dros £1,000 - os yw cyfanswm eich incwm o eiddo yn y DU a thramor yn £1,000 neu lai, gall hyn gael ei esemptio gan y Lwfans Incwm o Eiddo, gweler '4 Eiddo yn y DU' neu ewch i www.gov.uk/guidance/tax-free-allowances-on-property-and-trading-income i gael rhagor o wybodaeth
- taliadau incwm dewisol gan ymddiriedolaethau dibreswyl
- incwm neu fuddiannau gan berson sydd dramor neu gwmni neu ymddiriedolaeth dibreswyl (gan gynnwys ymddiriedolaeth yn y DU sydd naill ai wedi bod yn ymddiriedolaeth dibreswyl, neu sydd wedi cael incwm gan un)
- enillion ar bolisïau yswiriant bywyd tramor neu ar waredaidau mewn cronfeydd alltraeth

Dylech hefyd lenwi'r tudalennau 'Tramor' os ydych am hawlio Rhyddhad Credyd Treth Tramor neu Dreth Ataliedig Arbennig ar incwm a nodwyd ar dudalennau eraill.

Os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati', dylech lenwi'r tudalennau 'Tramor' i roi gwybod am yr incwm tramor yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer o dan y gyfundrefn FIG, ac i wneud yr hawliad hwnnw.

## 6 Ymddiriedolaethau ac ati

Llenwch y tudalennau 'Ymddiriedolaethau ac ati' os oeddech:

- yn fuddiolwr ymddiriedolaeth (nid ymddiriedolaeth wag – 'bare trust') neu setliad
- yn setlwr ymddiriedolaeth neu setliad y tybir bod yr incwm yn eiddo i chi

Os cawsoch incwm o ystâd person ymadawedig peidiwch â llenwi'r tudalennau 'Ymddiriedolaethau ac ati' os:

- oedd hawl gennych i swm penodedig o arian neu ased penodol
- talwyd eich cymynrodd â llog (dangoswch y llog ym mlwch 1 neu 2 ar dudalen TR 3 eich Ffurflen Dreth)
- daeth yr incwm hwnnw o ased penodol yr ystâd, er enghraifft, rhenti o eiddo'r ystâd

Peidiwch â chynnwys taliadau gan ymddiriedolaeth a ariannwyd gan gyfandaliad buddiant marwolaeth wedi'i drethu, yn y tudalennau 'Ymddiriedolaeth ac ati' – dylech roi'r rhain ym mlychau 11 a 12 ar dudalen TR 3.

## 7 Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf

Llenwch y tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf' ac atodwch eich cyfrifiannau os:

- gwnaethoch werthu neu waredu asedion trethadwy a oedd yn werth mwy na £50,000
- oedd eich enillion trethadwy (cyn didynnu unrhyw golledion) yn fwy na £3,000
- ydych am hawlio colled cyfalaf caniataol neu hawlio unrhyw enillion cyfalaf neu wneud dewis am y flwyddyn
- oeddech yn defnyddio'r sail trosglwyddo yn flaenorol, ac wedi trosglwyddo enillion tramor trethadwy o flwyddyn gynharach
- oes gennych unrhyw enillion trethadwy mewn perthynas â buddiant a drosglwyddir
- gwnaethoch werthu neu waredu buddiant mewn eiddo neu dir yn y DU ac nid oeddech yn breswylydd y DU neu roeddech yn breswylydd y DU ac roeddech dramor ar adeg y gwarediad
- gwnaethoch gyflwyno Ffurflen Dreth Trafodion Amser Real wrth waredu ased, ac nid ydych wedi talu'r swm llawn o Dreth Enillion Cyfalaf

Dylech lenwi'r tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol' os oes gennych enillion digwyddiadau trethadwy.

Os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati', dylech lenwi'r tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf' i roi gwybod am yr incwm tramor yr ydych yn hawlio rhyddhad ar ei gyfer o dan y gyfundrefn FIG, ac i wneud yr hawliad hwnnw.

## 8 Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati

Dylech lenwi'r tudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati' os:

- nad ydych yn breswylydd yn y DU
- gwnaethoch gyrraedd yn y DU yn ystod blwyddyn dreth 2025 i 2026 a daethoch yn breswylydd yn y DU
- ydych am hawlio triniaeth blwyddyn ranedig
- ydych am wneud hawliad am incwm tramor a/neu hawliad am enillion tramor o dan y gyfundrefn FIG
- ydych am wneud dewis ar gyfer cyfleuster ailwladoli dros dro (TRF)
- ydych am wneud dewis a/neu hawliad am ryddhad o dan y gyfundrefn Rhyddhad Diwrnod Gwaith Tramor (OWR)
- ydych am hawlio rhyddhad rhag treth y DU ar incwm tramor neu enillion tramor a fuddsoddwyd mewn busnes cymhwysol (Rhyddhad Buddsoddiadau Busnes)
- ydych wedi trosglwyddo unrhyw incwm neu enillion enwebedig yn ystod blwyddyn dreth 2025 i 2026

## 9 Gwybodaeth ychwanegol

Llenwch y tudalennau hyn os oes gennych:

- llog o warantau'r DU, benthyciadau cymar i gymar, gwarantau â chryn ddisgownt ac elw incwm a gronnwyd
- enillion o yswiriant bywyd (enillion digwyddiadau trethadwy)
- difidendau stoc, dyroddiadau bonws o warantau a chyfranddaliadau adbryn
- derbyniadau busnes a drethwyd fel incwm o flwyddyn gynharach
- incwm o gynlluniau cyfranddaliadau
- cyfandaliadau neu daliadau iawndal gan eich cyflogwr, neu enillion tramor nad ydynt yn drethadwy yn y DU
- incwm gan gyn-gyflogwr a gwmpesir gan drefniadau trydydd parti neu reolau 'tâl cuddiedig'

Dylech hefyd lenwi'r tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol' os:

- ydych am hawlio:
  - Lwfans Pâr Priod
  - didyniadau cyflogaeth
  - rhyddhad treth, er enghraifft, ar daliadau cynhaliaeth neu fuddsoddiadau penodol
  - rhyddhad ar gyfer colledion o incwm arall
  - rhyddhad nawr ar gyfer colledion masnachu neu golledion cyfalaf penodol ar gyfer blwyddyn dreth 2026 i 2027
- ydych yn agored i gostau treth cynilion pensiwn, er enghraifft cost y lwfans blynyddol (gan gynnwys cynlluniau pensiwn tramor)
- oes angen i chi roi gwybod i ni am gynllun arbed treth

I gael rhagor o wybodaeth am y taliad treth ar gynilion pensiwn, ewch i www.gov.uk/treth-ar-eich-pensiwn-preifat

Dylai'ch Ffurflen Dreth gynnwys yr holl dudalennau perthnasol. Os nad yw, bydd angen i chi gael y tudalennau atodol a'r nodiadau perthnasol i'ch helpu i'w llenwi. Ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

# Dechrau ar eich Ffurflen Dreth

## Eich manylion personol

### Blwch 1 Eich dyddiad geni

Sicrhewch eich bod yn rhoi eich dyddiad geni. Os na wnewch hynny, efallai na chewch yr holl lwfansau y mae gennych hawl iddynt.

### Blwch 2 Eich enw a'ch cyfeiriad

Os yw'ch cyfeiriad yn wahanol neu ar goll, ysgrifennwch y manylion cywir o dan y blwch 'Cyfeiriad anfon' ar flaen y ffurflen a rhowch y dyddiad y gwnaethoch newid eich cyfeiriad ym mlwch 2. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi'ch cyfeiriad diweddaraf i CThEF, gan fod hyn yn pennu cyfradd y Dreth Incwm y byddwch yn ei thalu. Os byddwch yn newid cyfeiriad, rhowch wybod i CThEF ar-lein cyn llenwi'ch Ffurflen Dreth nesaf.

I gael gwybodaeth am gyfraddau Treth Incwm yng Nghymru, ewch i www.gov.uk/treth-incwm-cymru

I gael gwybodaeth am gyfraddau Treth Incwm yn yr Alban, ewch i www.gov.uk/scottish-income-tax

I gael gwybodaeth am gyfraddau Treth Incwm yng ngweddill y DU, ewch i www.gov.uk/cyfraddau-treth-incwm

### Blwch 4 Eich rhif Yswiriant Gwladol

Os nad yw eich rhif Yswiriant Gwladol ar frig eich Ffurflen Dreth, bydd i'w weld ar:

- slip cyflog, P45 neu eich P60 am y flwyddyn
- P2, 'Hysbysiad Cod TWE'
- unrhyw lythyr oddi wrthym ni neu'r Adran Gwaith a Phensiynau

| Rhif Yswiriant Gwladol | Rhif gwaith/cyflogres |
|---|---|
| AB 12 66 34 C | |

Enghraifft o rif Yswiriant Gwladol

# Incwm

## Llog a difidendau o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn y DU

Mae hyn yn cynnwys:

- unrhyw log a gewch ar gyfrifon banc, cymdeithas adeiladu a chyfrifon cynilion eraill
- difidendau a dosraniadau cymwys eraill o gwmnïau yn y DU ac ymddiriedolaethau unedol awdurdodedig neu gwmnïau buddsoddi penagored yn y DU
- incwm sy'n deillio o flwydd-daliadau bywyd a brynwyd
- llog a gewch nad yw ar ffurf arian parod

Peidiwch â chynnwys unrhyw log o Gyfrifon Cynilo Unigol (ISAs), *'Ulster Savings Certificates'*, cynlluniau Cynilo Wrth Ennill neu fel rhan o ddyfarniad am iawndal gan lys yn y DU.

Rydym fel arfer yn trin incwm o fuddsoddiadau a ddelir ar y cyd fel petai yn berchen i'r ddau ohonoch mewn cyfrannau cyfartal. Fodd bynnag, os delir y buddsoddiadau mewn cyfrannau anghyfartal, gallwch ddewis i gael yr incwm a thalu treth ar y cyfrannau hynny. Dylech nodi eich cyfran chi yn unig o unrhyw incwm ar y cyd ar eich Ffurflen Dreth.

Os bydd enwebai yn cael incwm buddsoddiad ar eich rhan, neu os ydych yn fuddiolwr ymddiriedolaeth wag ('bare trust'), llenwch flychau 1 i 5 ar dudalen TR 3 (nid y tudalennau 'Ymddiriedolaethau ac ati').

Os ydych yn rhoi rhoddion i unrhyw un o'ch plant sydd o dan 18 oed, ac mae'r rhoddion hynny yn cynhyrchu incwm o £100 neu ragor (cyn treth), rhaid i chi gynnwys yr incwm llawn hwnnw ar eich Ffurflen Dreth.

Os yw eich banc neu gymdeithas adeiladu yn talu enillion ariannu amgen i chi neu enillion rhannu elw yn hytrach na llog, rhowch y swm ym mlwch 1 os cafodd ei drethu, neu flwch 2 os na chafodd ei drethu.

## Llog y DU

Rhowch unrhyw log o'r canlynol ym mlwch 1 neu flwch 2:

- cyfrifon cynilion banciau a chymdeithasau adeiladu, gan gynnwys cyfrifon ar y rhyngrwyd
- ymddiriedolaethau unedol awdurdodedig, cwmnïau buddsoddi penagored ac ymddiriedolaethau buddsoddi yn y DU – caiff y rhain eu talu heb ddidynnu treth – nodwch swm llawn y dosbarthiad hwn ym mlwch 2
- cyfrifon Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol a bondiau cynilo
- llog trethadwy a gafwyd ar daliadau iawndal, er enghraifft, yswiriant gwarchod taliadau (PPI)
- tystysgrifau adneuo treth
- undebau credyd a chymdeithasau cyfeillgar

Peidiwch â chynnwys llog o warantau llywodraeth y DU (giltiau), neu log o fondiau, nodiadau benthyg neu warantau a ddyroddwyd gan gwmnïau yn y DU. Mae'r rhain yn mynd yn y tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol'.

### Blwch 1  Llog y DU a drethwyd – y swm net ar ôl didynnu treth

Copïwch fanylion y llog net o'ch cyfriflenni neu dalebau electronig. Os oes gennych fwy nag un cyfrif, adiwch at ei gilydd eich holl log net a nodwch y cyfanswm ym mlwch 1.

Dylech gynnwys unrhyw incwm net (ar ôl didynnu treth) o flwydd-dal bywyd a brynwyd. Defnyddiwch y manylion ar eich tystysgrif talu a rhowch ran incwm y taliad yn unig ym mlwch 1. Peidiwch â chynnwys gweddill y taliad.

Os cawsoch arian neu gyfranddaliadau ar ôl i gymdeithas adeiladu gael ei chymryd drosodd neu ei chyfuno â chymdeithas adeiladu arall, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth ar yr incwm. Os felly, dylech ei gynnwys ym mlwch 1. Os nad ydych yn sicr, rhowch y swm ym mlwch 17 a rhowch y manylion o dan 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen TR 7.

### Blwch 2  Llog y DU nas trethwyd – symiau nas trethwyd o gwbl

Os oes gennych gyfrif sy'n talu llog gros i chi (er enghraifft, cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu), rhowch y swm gros ym mlwch 2.

### Blwch 3  Llog tramor nas trethwyd (hyd at £2,000)

Os mai eich unig incwm tramor oedd llog tramor nas trethwyd (hyd at £2,000), rhowch y swm (mewn punnoedd y DU) ym mlwch 3 yn hytrach na llenwi'r tudalennau 'Tramor'. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026, a'ch bod am hawlio rhyddhad ar log tramor nas trethwyd (hyd at £2,000), bydd angen i chi roi'r swm hwn ar y tudalennau 'Tramor' yn lle ei nodi yma.

Rhaid i chi roi enw'r wlad lle y codwyd y llog a'r swm a gawsoch o dan 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen TR 7.

Os oedd yn fwy na £2,000, bydd angen i chi lenwi'r tudalennau 'Tramor'.

## Difidendau'r DU

Nid ydych yn talu treth ar y £500 cyntaf o incwm o ddifidendau a gewch (y lwfans difidend). Rydych yn talu treth ar ddifidendau sy'n fwy na'r lwfans difidend ar y cyfraddau canlynol:

- 8.75% ar incwm o ddifidendau o fewn yr haen gyfradd sylfaenol
- 33.75% ar incwm o ddifidendau o fewn yr haen gyfradd uwch
- 39.35% ar incwm o ddifidendau o fewn yr haen gyfradd ychwanegol

Dylech gynnwys eich holl incwm o ddifidendau hyd yn oed os yw'n llai na £500, gan y bydd yn cyfrif tuag at eich haenau cyfradd sylfaenol neu gyfradd uwch, a gall effeithio ar y gyfradd dreth yr ydych yn ei thalu ar ddifidendau yr ydych yn eu cael sy'n fwy na'r lwfans, sef £500.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/treth-ar-ddifidendau**

### Blwch 4  Difidendau o gwmnïau yn y DU – y swm a gafwyd

Bydd eich taleb ddifidend yn dangos eich cyfranddaliadau yn y cwmni, y gyfradd ddifidend, a'r difidend sy'n daladwy. Rhowch gyfanswm y taliadau difidendau ym mlwch 4.

Dylech gynnwys unrhyw ddifidendau o gynlluniau cyfranddaliadau ar gyfer cyflogeion ac incwm o ddifidendau o flwch 14.1, R185 (Setlwr). Peidiwch â chynnwys:

- Dosbarthiadau Incwm o Eiddo sy'n deillio o Ymddiriedolaethau Buddsoddi mewn Eiddo Diriaethol (REITs) neu Gronfeydd Buddsoddi mewn Eiddo Awdurdodedig (PAIFs) – mae'r rhain yn mynd ym mlwch 17, a'r dreth a ddidynwyd ym mlwch 19
- difidendau stoc neu ddifidendau anghymwysol – mae'r rhain yn mynd ar y tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol'

### Blwch 5  Difidendau eraill – y symiau a gafwyd

Mae hyn yn cynnwys difidendau o ymddiriedolaethau unedol awdurdodedig, cwmnïau buddsoddi penagored ac ymddiriedolaethau buddsoddi. Rhowch y swm ar eich taleb ddifidend ym mlwch 5.

Dylech gynnwys ym mlwch 5 unrhyw ddifidend o unedau neu gyfranddaliadau cronni sy'n cael eu hail-fuddsoddi'n awtomatig. Peidiwch â chynnwys symiau 'cyfartaliad'.

### Blwch 6  Difidendau tramor (hyd at £500)

Os mai eich unig incwm tramor oedd difidendau hyd at £500, rhowch y swm net (mewn punnoedd y DU) ym mlwch 6. Rhowch y dreth dramor a ddidynnwyd ym mlwch 7. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026, a'ch bod am hawlio rhyddhad ar ddifidendau tramor (hyd at £500), bydd angen i chi roi'r swm hwn ar y tudalennau 'Tramor' yn lle ei nodi yma.

Os yw cyfanswm eich incwm o ddifidendau (gan gynnwys difidendau yn y DU a thramor) dros £500 a'ch bod am hawlio Rhyddhad Credyd Treth Tramor, peidiwch â chynnwys y difidend tramor yn y blwch hwn. Ewch ati i lenwi'r tudalennau 'Tramor' yn lle hynny.

Nid yw'n bosibl defnyddio cymysgedd o ryddhad credyd treth a rhyddhad didyniad ar yr un ffynhonnell incwm.

## Pensiynau a blwydd-daliadau'r DU a budd-daliadau eraill y Wladwriaeth a gafwyd

Nid yw pob budd-dal yn drethadwy. Peidiwch â chynnwys y canlynol ym mlychau 8 i 13:

- Lwfans Gweini, cyfandaliad Taliad Cymorth Profedigaeth neu Daliadau Annibyniaeth Bersonol
- Credyd Pensiwn y Wladwriaeth, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant neu Gredyd Cynhwysol
- ychwanegiadau at Bensiynau'r Wladwriaeth neu at fudd-daliadau o ganlyniad i blant dibynnol
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Grant Ceisydd Gwaith neu daliadau Parth Cyflogaeth
- Lwfans Mamolaeth
- Pensiwn Rhyfel Gwraig Weddw a rhai pensiynau a delir i ddibynyddion eraill y lluoedd arfog os digwyddodd y farwolaeth tra'n aelod o'r lluoedd arfog cyn 6 Ebrill 2005
- pensiynau a thaliadau eraill oherwydd anabledd, anaf neu salwch a achoswyd gan wasanaeth milwrol
- rhai pensiynau buddiolwyr pan fo'r aelod yn marw cyn troi'n 75 oed
- pensiynau tramor – mae'r rhain yn mynd ar y tudalennau 'Tramor'

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n incwm trethadwy a'r hyn nad yw'n incwm trethadwy, ewch i www.gov.uk/treth-incwm

I gael rhagor o wybodaeth am dreth ar bensiynau buddiolwyr, ewch i www.gov.uk/tax-on-pension-death-benefits ac am bensiynau gweddwon rhyfel ewch i www.gov.uk/war-widow-pension

### Blwch 8 Pensiwn y Wladwriaeth

Defnyddiwch y llythyr ynghylch y cynnydd cyffredinol mewn budd-daliadau a anfonwyd atoch gan y Gwasanaeth Pensiwn i ddod o hyd i'ch swm wythnosol o Bensiwn y Wladwriaeth.

Cyfrifwch y swm roedd gennych hawl i'w gael o 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026 a rhowch y cyfanswm ym mlwch 8. At ddibenion treth, y swm cywir bob amser yw ffigur yr hawl wythnosol nid nifer y taliadau a gawsoch, felly dyma fydd yr wythnos gyntaf ar yr hen gyfradd bensiwn wythnosol, ynghyd â 51 wythnos ar y gyfradd bensiwn wythnosol newydd.

**Enghraifft**

Os oedd eich hen bensiwn wythnosol yn £90 a'ch pensiwn wythnosol newydd yn £100 (defnyddir y symiau at ddibenion enghreifftiol yn unig):

- Wythnos gyntaf ar £90 = £90
- 51 wythnos ar £100 = £5,100
- Rhowch ym mlwch 8 £5,190

Fodd bynnag, os gwnaethoch gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2010 ac mae 6 Ebrill 2025 ar ddydd Sadwrn, dydd Sul neu ddydd Llun, cyfrifir bod y cynnydd 52 gwaith y gyfradd newydd.

Peidiwch â chynnwys unrhyw swm a gafwyd ar gyfer Lwfans Gweini.

Os gwnaeth eich Pensiwn y Wladwriaeth newid yn ystod y flwyddyn, neu os gwnaethoch ond ei gael am ran o'r flwyddyn, lluoswch bob swm â nifer yr wythnosau yr oedd gennych yr hawl i'w gael. Adiwch y symiau at ei gilydd yn ofalus.

Os nad oes gennych lythyr gan y Gwasanaeth Pensiwn, ffoniwch nhw ar 0800 731 0453 (ffôn testun 0800 731 0456) a gofynnwch iddynt am yr wybodaeth.

Os cawsoch gyfandaliad oherwydd gwnaethoch ohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth, rhowch y swm ym mlwch 9, nid ym mlwch 8.

Peidiwch â chynnwys Credyd Pensiwn y Wladwriaeth, bonws y Nadolig, Taliad Tanwydd Gaeaf neu unrhyw ychwanegiad ar gyfer plant dibynnol.

### Blwch 9 a 10 Cyfandaliad Pensiwn y Wladwriaeth

Dylech ond llenwi blwch 9 os gwnaethoch ohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth am o leiaf 12 mis a dewis ei gael fel cyfandaliad unigol yn y flwyddyn dreth 2025 i 2026. Rhowch y swm gros (cyn didynnu treth) ym mlwch 9 a'r dreth a ddidynnwyd ym mlwch 10. Peidiwch â chynnwys unrhyw gyfandaliad ym mlwch 8.

### Blwch 11 Pensiynau (heblaw am Bensiwn y Wladwriaeth), blwydd-daliadau ymddeol a chyfandaliadau trethadwy sy'n cael eu trin fel pensiynau

Bydd talwr eich pensiwn yn rhoi P60, 'Tystysgrif Diwedd Blwyddyn', neu ddatganiad tebyg i chi. Adiwch eich blwydd-daliadau ymddeol at eich pensiynau'r DU (heblaw am Bensiwn y Wladwriaeth), a rhowch y cyfanswm gros (cyn didynnu treth) ym mlwch 11.

Mae hyn yn cynnwys pensiynau trethadwy:

- gan eich cyflogwr, neu gyflogwr yr aelod o'ch teulu sydd wedi marw
- o gynlluniau pensiwn personol a chynlluniau pensiwn cyfranddeiliaid
- a delir fel 'pensiwn a godir o gronfa' o gynllun pensiwn cofrestredig
- o gynlluniau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol
- am anafiadau yn y gwaith neu ar gyfer salwch sy'n gysylltiedig â gwaith
- o wasanaeth yn y Lluoedd Arfog
- o gytundebau blwydd-daliadau ymddeol neu gynlluniau ymddiriedolaeth
- o'r Cynllun Cymorth Ariannol
- a delir ar ôl troi'n 75 oed fel cyfandaliad salwch difrifol neu gyfandaliad buddiant marwolaeth

Mae hefyd yn cynnwys y rhan drethadwy o unrhyw un o'r canlynol:

- cyfandaliadau a gawsoch yn lle pensiwn bach ('cyfandaliad cymudiad pitw')
- 'arian heb ei grisialu ar ffurf cyfandaliad pensiwn' a dynnwyd gennych o dan hyblygrwydd pensiwn
- cyfandaliad cychwyn pensiwn sydd dros ben
- cyfandaliad annibynnol
- cyfandaliad a dalwyd cyn troi'n 75 oed fel cyfandaliad salwch difrifol

Peidiwch â chynnwys buddiannau marwolaeth sy'n deillio o bensiwn, nad ydynt yn drethadwy, y mae gennych hawl iddynt am y tro cyntaf o 6 Ebrill 2015 ymlaen.

Rhowch y manylion canlynol yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen TR 7:

- manylion talwr eich pensiwn neu flwydd-dal a'ch cyfeirnod chi
- eich cyfeirnod TWE
- y taliad cyn treth a swm y dreth a ddidynnwyd
- os cawsoch gyfandaliad buddiant marwolaeth trethadwy drwy ymddiriedolaeth, enw, dyddiad geni a dyddiad marwolaeth yr aelod sydd wedi marw, o'ch tystysgrif R185 (Pensiwn LSDB) – rhowch y ffigurau o'ch tystysgrif ar gyfer y symiau gros a'r dreth a dalwyd ym mlychau 11 a 12

### Didyniad o 10%

Os cewch bensiwn y DU am gyn-wasanaeth i lywodraeth dramor, dim ond 90% o'r pensiwn sylfaenol sydd yn drethadwy yn y DU. Didynnwch 10% oddi ar werth y pensiwn cyn i chi roi'r swm ym mlwch 11.

Y tiriogaethau dan sylw yw:

- unrhyw wlad sy'n ffurfio rhan o deyrnasoedd Ei Fawrhydi
- unrhyw wlad o fewn y Gymanwlad (ac eithrio'r DU)
- unrhyw diriogaeth a ddiogelir gan Ei Fawrhydi.

> ⓘ I gael rhagor o wybodaeth am dreth ar bensiynau, ewch i www.gov.uk/treth-ar-bensiwn
> I gael help gyda thaliadau gan y Cynllun Cymorth Ariannol sy'n cwmpasu sawl blwyddyn, ewch i www.ppf.co.uk/our-members/what-it-means-fas

### Blwch 12 Y dreth a ddidynnwyd o'r swm ym mlwch 11

Defnyddiwch y P60 neu'r dystysgrif a roddodd eich talwr pensiwn i chi, a rhowch gyfanswm y dreth a ddidynnwyd o'ch holl bensiynau ym mlwch 12.

| 12 | Y dreth a ddidynnwyd o'r swm ym mlwch 11 |
|---|---|
| | £ – 640.00 |

Enghraifft o Ffurflen Dreth, blwch 12

Os yw eich P60 yn dangos eich bod wedi cael ad-daliad, bydd 'R' wrth ei ymyl. Rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen y ffigur.

### Blwch 13 Budd-dal Analluogrwydd trethadwy a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau (ESA)

Nid yw pob Budd-dal Analluogrwydd yn drethadwy. Nid yw'n drethadwy yn ystod 28 wythnos cyntaf yr analluogrwydd neu os dechreuodd eich analluogrwydd cyn 13 Ebrill 1995 ac rydych wedi bod yn ei gael ar gyfer yr un salwch ers hynny.

Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau, a Thaliad Atodol i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sydd wedi'i Gyfyngu o ran Amser (a delir yng Ngogledd Iwerddon yn unig), i gyd yn drethadwy.

Defnyddiwch y P60(IB), y P45(IB), y P60(U) neu'r P45(U) a roddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i chi. Rhowch gyfanswm trethadwy eich budd-dal neu lwfans ym mlwch 13 ac unrhyw dreth a ddidynnwyd o'ch taliadau ym mlwch 14.

### Blwch 15 Lwfans Ceisio Gwaith

Defnyddiwch y P60(IB), y P45(IB), y P60(U) neu'r P45(U) a roddodd DWP i chi a rhowch gyfanswm y Lwfans Ceisio Gwaith ym mlwch 15.

Os gwnaethoch roi'r gorau i hawlio cyn 5 Ebrill 2026, bydd y cyfanswm i'w weld ar eich ffurflen P45(U).

### Blwch 16 Cyfanswm unrhyw bensiynau neu fudd-daliadau trethadwy eraill y Wladwriaeth

Os cawsoch un o'r canlynol, adiwch nhw at ei gilydd a rhowch y cyfanswm ym mlwch 16:

- Lwfans Profedigaeth neu Bensiwn Gwraig Weddw
- Lwfans Rhiant Gweddw neu Lwfans Mam Weddw
- Buddiant Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Gofalwr, Taliad Cymorth Gofalwr neu Daliad Atodol i Lwfans Gofalwr (pan fyddwch yn ei gael yn lle Lwfans Gofalwr – telir yng Ngogledd Iwerddon yn unig)
- Taliad Atodol i Lwfans Gofalwr (pan fyddwch yn ei gael fel taliad ychwanegol ar gyfer pobl yn yr Alban sy'n cael Lwfans Gofalwr)
- Tâl Salwch Statudol neu Dâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol neu Dâl Mabwysiadu Statudol a Thâl Ar y Cyd i Rieni, ond dim ond os cafodd ei dalu gan Gyllid a Thollau EF (nid eich cyflogwr)

Peidiwch â chynnwys bonws y Nadolig, Taliad Tanwydd Gaeaf, neu unrhyw Daliadau Tywydd Oer.

## Incwm arall y DU nas cynhwyswyd ar dudalennau atodol

### Blwch 17  Incwm trethadwy arall

Mae hyn yn cynnwys:

- incwm amrywiol - er enghraifft, o enillion achlysurol, comisiwn neu incwm llawrydd (heb ei esemptio gan y lwfans incwm masnachu)
- derbyniadau busnes pan fo'ch busnes wedi dod i ben
- Dosraniadau Incwm o Eiddo (PIDs) o Ymddiriedolaethau Buddsoddi mewn Eiddo Diriaethol (REITs) a Chronfeydd Buddsoddi mewn Eiddo Awdurdodedig (PAIFs)
- taliadau o bolisi yswiriant personol ar gyfer budd-daliadau salwch neu anabledd
- incwm o ymddiriedolaethau unedol heb eu hawdurdodi
- taliadau blynyddol trethadwy
- elw o dystysgrifau adneuo
- buddiannau nad yw ar ffurf arian parod a gawsoch am fod yn gyn-gyflogai
- y taliadau canlynol wedi eu hawdurdodi o gynllun pensiwn tramor:
  - y rhan drethadwy o 'arian heb ei grisialu ar ffurf cyfandaliad pensiwn', cyfandaliad dirwyn i ben neu gyfandaliad cymudiad pitw
  - taliadau ar ôl troi'n 75 oed, fel cyfandaliad salwch difrifol neu gyfandaliad buddiant marwolaeth awdurdodedig
  - taliadau cyn troi'n 75 oed, fel cyfandaliad salwch difrifol, 'buddiant marwolaeth arian heb ei grisialu ar ffurf cyfandaliad pensiwn' neu 'cyfandaliad buddiannau marwolaeth o fuddiannau diffiniedig'

Os nad ydych yn siŵr a oes unrhyw incwm yn drethadwy, cysylltwch â thalwr yr incwm er mwyn cadarnhau sut y dylid ei drin cyn llenwi'r blwch hwn.

Mae derbyniadau o hunangyflogaeth (darllenwch dudalen TRG 2 y nodiadau hyn) ac incwm amrywiol penodol o £1,000 neu lai wedi'u hesemptio rhag dreth, ac nid oes angen rhoi gwybod amdanynt ar Ffurflen Dreth. Os yw cyfanswm y derbyniadau gan y ddau'n fwy na £1,000, rhaid llenwi'r tudalennau 'Hunangyflogaeth' i roi gwybod am yr incwm o hunangyflogaeth, a rhaid rhoi gwybod am yr incwm amrywiol ym mlwch 17.

Peidiwch â chynnwys unrhyw incwm o'ch cyflogaeth, hunangyflogaeth neu enillion cyfalaf, nac unrhyw incwm amrywiol sydd wedi'i esemptio gan y lwfans incwm masnachu. Os ydych eisoes wedi hawlio rhan o'ch lwfans incwm masnachu, neu'r lwfans cyfan o £1,000, yn erbyn eich incwm o hunangyflogaeth, y swm sydd wedi'i esemptio yw'r swm sydd heb ei ddefnyddio, a dylech roi unrhyw incwm amrywiol sy'n fwy na'r swm hwnnw ym mlwch 17.

**Enghraifft**

Mae gan Twm £500 o incwm hunangyflogedig ac £800 o incwm amrywiol.

Oherwydd bod yr incwm hwn dros £1,000, mae'n rhaid rhoi gwybod amdano ar ei Ffurflen Dreth.

Mae Twm yn rhoi £500 ym mlwch 9 (Trosiant) a £500 ym mlwch 10.1 (Lwfans incwm masnachu) ei dudalennau Hunangyflogaeth (byr).

Swm y lwfans sy'n weddill = £500

Mae Twm yn rhoi £300 ym mlwch 17 (£800 llai £500 (y swm sy'n weddill o'r lwfans incwm masnachu)).

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i ni beth yw'r incwm hwn ym mlwch 21.

I gael rhagor o wybodaeth am lwfans incwm masnachu ac incwm amrywiol sy'n denu'r lwfans, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-free-allowances-on-property-and-trading-income

I gael rhagor o wybodaeth am incwm arall, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS325'.

### Blwch 18  Cyfanswm y treuliau caniataol

Mae hyn yn cynnwys unrhyw dreuliau:

- roedd yn rhaid i chi eu talu er mwyn ennill yr incwm yn unig
- nad oeddynt at ddibenion preifat neu bersonol
- nad oeddynt yn eitemau cyfalaf, megis cyfrifiadur

Os ydych yn defnyddio'ch lwfans incwm masnachu o £1,000 yn erbyn eich incwm amrywiol neu'ch incwm o hunangyflogaeth, peidiwch â chynnwys ym mlwch 18 unrhyw symiau y bu'n rhaid i chi eu gwario i ennill yr incwm amrywiol hwn.

Gwnewch nodyn ym mlwch 21 o swm y lwfans incwm masnachu a hawliwyd yn erbyn eich incwm amrywiol.

**Blwch 20  Budd o asedion yr oeddech yn berchen arnynt yn flaenorol**

Mae'r asedion (eiddo) hyn yn cynnwys tir ac adeiladau, eiddo personol, er enghraifft, gweithiau celf, dodrefn, hynafolion, ceir neu gychod hwylio, neu unrhyw asedion a gedwir mewn setliad.

Efallai y bydd angen i chi dalu treth ar fuddiannau a gafwyd os oeddech yn berchen ar asedion yn flaenorol neu os gwnaethoch helpu i brynu asedion (asedion yr oeddech yn berchen arnynt yn flaenorol).

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth os:

- yn ystod blwyddyn dreth 2025 i 2026
  - gwnaethoch feddiannu tir heb dalu rhent llawn y farchnad ar ei gyfer
  - gwnaethoch ddefnyddio eiddo personol heb dalu'n llawn am y budd a gawsoch
  - gallech gael budd o eiddo rydych wedi'i setlo os caiff yr incwm o'r eiddo ei drin fel eich incwm chi
- ac ar ryw adeg ers 17 Mawrth 1986 roeddech
  - yn berchen ar yr eiddo rydych bellach yn elwa ohono
  - yn berchen ar, ac wedi gwerthu, eiddo a defnyddio'r derbyniadau i brynu'r eiddo rydych bellach yn elwa ohono
  - wedi rhoi eiddo i rywun arall, gan gynnwys arian parod, a gwnaethon nhw ei ddefnyddio i gaffael yr eiddo rydych chi bellach yn elwa ohono
  - wedi setlo asedion yn yr ymddiriedolaeth y gallwch elwa ohono

Rhowch wybod i ni ym mlwch 21 sut wnaethoch gyfrifo'r budd neu'r tâl rydych wedi ei nodi ym mlwch 20.

Peidiwch â chynnwys y budd os:

- gallai'r eiddo fod yn agored i Dreth Etifeddiant pan fyddwch yn marw
- yw cyfanswm y budd am y flwyddyn yn £5,000 neu lai
- gwnaethoch y rhodd arian parod cyn 6 Ebrill 2018

> I gael rhagor o wybodaeth am asedion roeddech yn berchen arnynt yn flaenorol a help gyda chyfrifo eich budd:
> - ewch i www.gov.uk/government/collections/hmrc-manuals a darllenwch dudalen IHTM44000 yn yr Inheritance Tax Manual, neu
> - ffoniwch y Llinell Gymorth Profiant a Threth Etifeddiant ar 0300 123 1072 neu gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900

## Rhyddhad Treth

Mae'r adran hon yn cwmpasu rhyddhad treth ar gyfer taliadau i gynlluniau pensiwn, elusennau ac ar gyfer Lwfans Person Dall. Os ydych am hawlio rhyddhad treth arall, er enghraifft, Lwfans Pâr Priod lle y ganed un o'r pâr cyn 6 Ebrill 1935, defnyddiwch y tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol'.

Gall yr wybodaeth a roddwch ar eich Ffurflen Dreth effeithio ar eich cod treth TWE os ydym yn ei chael cyn 31 Rhagfyr 2026.

Os ydych yn disgwyl i'r symiau neu'r hawliadau ym mlychau 2, 5, 6 neu 13 newid yn ystod blwyddyn dreth 2026 i 2027, mae'n rhaid i chi roi gwybod i CThEF er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn diweddaru eich cod treth TWE presennol.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/codau-treth

### Cyfrannu at gynlluniau pensiwn cofrestredig a chynlluniau pensiwn tramor

Llenwch flychau 1 i 3 ar gyfer taliadau a wnaed i gynlluniau pensiwn cofrestredig, a blwch 4 ar gyfer taliadau i gynlluniau pensiwn tramor.

Gallwch hawlio rhyddhad treth ar eich cyfraniadau at gynllun pensiwn cofrestredig os gwnaethoch eu talu cyn i chi gyrraedd 75 oed ac:

- eich bod yn breswylydd yn y DU yn ystod y flwyddyn dreth
- bod gennych enillion trethadwy yn y DU, er enghraifft incwm o gyflogaeth neu elw o hunangyflogaeth
- bod gennych enillion o gyflogaeth y Goron dramor sy'n drethadwy yn y DU (neu fod gan eich priod neu bartner sifil enillion o'r fath)
- eich bod wedi bod yn breswylydd yn y DU pan wnaethoch ymuno â'r cynllun pensiwn, ac ar unrhyw adeg yn y 5 blwyddyn dreth cyn blwyddyn dreth 2025 i 2026

Peidiwch â chynnwys unrhyw symiau ar gyfer:

- cyfraniadau aswiriant tymor personol
- cyfraniadau gan eich cyflogwr
- cyfraniadau a dynnwyd o'ch cyflog cyn didynnu treth

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/mathau-o-bensiynau

### Terfynau rhyddhad

Uchafswm y cyfraniadau personol y gallwch hawlio rhyddhad treth ar ei gyfer yw naill ai:

- hyd at swm eich enillion trethadwy yn y DU am y flwyddyn dreth
- hyd at £3,600 gros (hynny yw, £2,880 a dalwyd gennych ynghyd â £720 o ryddhad treth a hawliwyd gan ddarparwr eich pensiwn) i gynllun 'rhyddhad wrth y ffynhonnell' yn unig

Mae'r terfynau hefyd yn berthnasol ar gyfer cynlluniau pensiwn tramor.

Os yw eich cynilion pensiwn yn fwy na'r Lwfans Blynyddol, a bod treth yn ddyledus, rhaid i chi ddefnyddio'r tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol' a thalu treth.

Os ydych wedi gwneud hawliad am incwm tramor neu ddewis ar gyfer Rhyddhad Diwrnod Gwaith Tramor (OWR) o dan y gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026, mae'n bosibl y bydd cyfyngiad o ran swm y rhyddhad treth yr ydych yn gymwys i'w gael ar gyfer cyfraniadau a wnaed i gynllun pensiwn cofrestredig.

Os yw uchafswm y rhyddhad y gallwch ei gael ar gyfer cyfraniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn dreth yn fwy na £3,600, bydd y rhyddhad yr ydych yn gymwys i'w gael yn cael ei ostwng gan y swm isaf o'r canlynol:

- swm y rhyddhad a hawliwyd o dan y gyfundrefn FIG o ran 'enillion perthnasol yn y DU'
- y swm y byddai'n gostwng uchafswm y rhyddhad i £3,600

Mae hyn yn golygu bod y rhyddhad ar gyfer cyfraniadau yn cael ei ostwng i swm yr 'enillion perthnasol yn y DU' y gwnaed hawliad am incwm tramor ar ei gyfer, ond nid yw'n cael ei ostwng o dan £3,600.

> I gael rhagor o wybodaeth am y Lwfans Blynyddol, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS345', neu ewch i www.gov.uk/treth-ar-eich-pensiwn-preifat

## Cyfraniadau personol a oedd yn cael rhyddhad treth yn y cynllun

### Blwch 1 Taliadau i gynlluniau pensiwn cofrestredig sy'n gweithredu 'rhyddhad wrth y ffynhonnell'

O dan y system 'rhyddhad wrth y ffynhonnell', bydd eich darparwr pensiwn yn hawlio rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol (20%) ar eich cyfraniadau personol ac yn ei ychwanegu i'ch cronfa bensiwn.

Rhowch y cyfanswm ym mlwch 1 – hynny yw, eich cyfraniadau personol a dalwyd gennych i'r cynllun, ynghyd â'r rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol. Dylech gynnwys unrhyw daliadau 'untro' a wnaethoch yn ystod y flwyddyn 2025 i 2026. Taliadau 'untro' yw taliadau a wnaed yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2026 nad ydych yn bwriadu eu hail-wneud yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2027.

Defnyddiwch y dystysgrif pensiwn neu'r dderbynneb a gewch gan y gweinyddwr i lenwi blwch 1 neu cyfrifwch y ffigur drwy rannu'r swm a daloch mewn gwirionedd gyda 80 a lluosi'r canlyniad gyda 100.

> **Enghraifft**
>
> Mae Elin wedi talu £700 i'w chronfa bensiwn. Mae'n nodi £875 ym mlwch 1 (£700 wedi ei rannu gyda 80 a'i luosi gyda 100) sef ei thaliad net yn ogystal â'r rhyddhad treth o £175 (£875 ar 20%).

Os ydych yn talu treth ar gyfradd sy'n uwch na 20% dylech roi'r swm a daloch, ynghyd â'r rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol (20%), ym mlwch 1. Byddwn yn cyfrifo'r rhyddhad treth ychwanegol sy'n ddyledus i chi uwchlaw'r gyfradd sylfaenol a hawliwyd gan ddarparwr eich pensiwn.

### Blwch 1.1 Cyfanswm y taliadau 'untro' a gynhwyswyd ym mlwch 1

Er mwyn ein helpu i nodi'ch cod treth TWE yn gywir, os oes un gennych, rhowch gyfanswm unrhyw daliadau 'untro' (a gynhwyswyd ym mlwch 1) a wnaed gennych yn y flwyddyn dreth hyd at 5 Ebrill 2026 ym mlwch 1.1. Taliadau 'untro' yw taliadau a wnaed yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2026 nad ydych yn bwriadu eu hail-wneud yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2027.

## Cyfraniadau personol nad yw rhyddhad treth wedi'i hawlio ar eu cyfer eto

### Blwch 2 Taliadau i gontract blwydd-dal ymddeol

Os nad yw darparwr eich contract blwydd-dal ymddeol yn defnyddio'r system 'rhyddhad wrth y ffynhonnell', nid yw'n hawlio'r rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol (20%) ar eich rhan. Rhowch gyfanswm y cyfraniadau personol a dalwyd gennych chi yn ystod blwyddyn dreth 2025 i 2026 ym mlwch 2.

### Blwch 3 Taliadau i gynllun eich cyflogwr na chawsant eu didynnu o'ch cyflog cyn treth

Mewn rhai cynlluniau, mae cyflogwr yn tynnu eich cyfraniadau personol o'ch cyflog cyn iddynt ddidynnu treth o'r hyn sy'n weddill. Os gwnaethoch chi (neu rywun arall nad yw'n gyflogwr i chi) dalu i mewn i gynllun o'r fath ac ni roddwyd unrhyw ryddhad treth i chi, gallwch hawlio'r rhyddhad treth hwnnw nawr. Rhowch y cyfanswm a dalwyd gennych na roddwyd unrhyw ryddhad arno yn ystod blwyddyn dreth 2025 i 2026 ym mlwch 3.

Gall hyn ddigwydd os:

- gwnaethoch dalu mwy o gyfraniadau na wnaethoch eu hennill yn y swydd honno
- nid oedd eich cyflogwr yn gallu cymryd cyfraniadau o'ch cyflog cyn ei drethu, er enghraifft os cawsoch eich talu yn agos i 5 Ebrill
- nid ydych yn gyflogai ond rydych yn aelod o gynllun pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus neu gronfa peilotiaid morol

Peidiwch â chynnwys cyfraniadau personol a gafodd ryddhad wrth y ffynhonnell, megis cynllun pensiwn personol grŵp.

### Blwch 4 Taliadau i gynllun pensiwn tramor

Efallai y cewch ryddhad treth os ydych yn gymwys i gael rhyddhad aelod mudol, rhyddhad trosiannol cyfatebol neu ryddhad o dan gytundeb trethiant dwbl. Rhowch y swm sy'n gymwys am ryddhad treth ym mlwch 4.

## Cyfrannu at elusennau

O 5 Ebrill 2024 ymlaen, ni fyddwch yn cael rhyddhadau ar gyfraniadau a wnewch at elusennau y tu allan i'r DU.

Rhowch wybod i ni am y rhoddion i elusennau a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CChAC) yr ydych yn hawlio rhyddhad ar eu cyfer.

> I gael rhagor o wybodaeth am rhoi i elusennau, ewch i www.gov.uk/cyfrannu-i-elusen
>
> I gael rhestr A i Z o CChAC cofrestredig, ewch i www.gov.uk/government/publications/community-amateur-sports-clubs-casc-registered-with-hmrc--2

## Rhodd Cymorth

Mae Rhodd Cymorth yn rhyddhad treth ar gyfer rhoddion o arian i elusennau a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CChAC).

Os ydych yn talu treth ar gyfradd sy'n uwch na'r gyfradd sylfaenol, gallwch hawlio rhyddhad treth ychwanegol – mae'r cyfrifiad treth yn cael ei gyfrifo ar eich rhan.

### Blwch 5 Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2026

Rhowch gyfanswm y taliadau Rhodd Cymorth a wnaethoch o 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026 yn y blwch hwn. Peidiwch â chynnwys taliadau o dan Rhoi Drwy'r Gyflogres.

### Blwch 6 Cyfanswm y taliadau 'untro' ym mlwch 5

Er mwyn ein helpu i nodi'ch cod treth TWE yn gywir os oes gennych un, nodwch unrhyw daliadau 'untro' a gynhwyswyd ym mlwch 5 ym mlwch 6. Dyma'r taliadau Rhodd Cymorth a wnaed o 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026 nad ydych yn bwriadu ailadrodd yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2027.

### Blwch 7 Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2026 ond a gawsant eu trin fel petaent wedi eu cyfrannu yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2025

Ym mlwch 7, rhowch unrhyw daliadau Rhodd Cymorth a wnaethoch rhwng 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026 rydych am i ni eu trin fel pe baech wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2024 i 5 Ebrill 2025.

### Blwch 8 Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ar ôl 5 Ebrill 2026 ond sydd i'w trin fel petaent wedi eu cyfrannu yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2026

Os ydych am i ni drin taliadau Rhodd Cymorth a wnaethoch rhwng 6 Ebrill 2026 a'r dyddiad yr anfonwch eich Ffurflen Dreth atom, fel petaech wedi'u gwneud yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2026, rhowch y swm ym mlwch 8. Er enghraifft, os ydych yn gwybod na fyddwch yn talu treth ar gyfradd uwch y flwyddyn hon ond fe wnaethoch yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2026.

### Blwch 9 Gwerth cyfranddaliadau neu warantau cymwys a roddwyd i elusen

Gallwch hawlio rhyddhad treth ar gyfer unrhyw gyfranddaliadau a gwarantau cymwys a roddwyd neu a werthwyd i elusen am lai na'u gwerth marchnadol. Cyfranddaliadau a gwarantau cymwys yw:

- y rheiny a restrwyd ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig neu sy'n cael eu cynnwys mewn marchnad ddynodedig yn y DU
- unedau mewn ymddiriedolaeth unedol awdurdodedig
- cyfranddaliadau mewn cwmni buddsoddi penagored
- buddiant mewn cronfa alltraeth

Nodwch ym mlwch 9 gwerth net y budd sy'n deillio o'r cyfranddaliadau neu'r gwarantau, llai unrhyw symiau neu fuddiannau a gafwyd gan yr elusen. Ychwanegwch unrhyw fân gostau ar gyfer y trosglwyddiad, er enghraifft ffioedd broceriaid neu ffioedd cyfreithiol.

> I gael rhagor o wybodaeth am roi i elusennau, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS342'.

### Blwch 10 Gwerth tir ac adeiladau cymhwysol a roddwyd i elusen

Gallwch hawlio rhyddhad treth ar gyfer unrhyw rodd neu werthiant am lai na'i werth marchnadol mewn perthynas â 'buddiant cymwys mewn tir'. Hynny yw, y cyfan o'ch buddiant llesiannol yn y tir rhydd-ddaliadol neu brydlesol hwnnw yn y DU.

Nodwch ym mlwch 10 gwerth net y budd sy'n deillio o'r tir, llai unrhyw symiau neu fuddiannau a gafwyd oddi wrth yr elusen. Ychwanegwch unrhyw gostau'r rhodd neu'r gwerthiant, er enghraifft ffioedd cyfreithiol neu ffioedd y prisiwr.

## Lwfans Person Dall

Os ydych wedi gwneud hawliad am incwm tramor, hawliad am enillion tramor neu ddewis Rhyddhad Diwrnod Gwaith Tramor (OWR) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 o dan y gyfundrefn FIG, byddwch yn colli'ch hawl i gael Lwfans Person Dall ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026.

### Blwch 14 Nodwch enw'r awdurdod lleol neu gofrestr arall

Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr, bydd yr awdurdod lleol yn ychwanegu eich enw at ei gofrestr o bobl â nam ar eu golwg (pobl ddall) pan fyddwch yn dangos tystysgrif arbenigwr llygaid iddo sy'n nodi eich bod yn ddall neu fod nam difrifol ar eich golwg.

Os ydych yn byw yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon a heb eich cynnwys ar gofrestr, gallwch hawlio Lwfans Person Dall os na allwch wneud gwaith lle mae golwg yn hanfodol. Rhowch 'Yr Alban' neu 'G. Iwerddon' ym mlwch 14.

Os gwnaethoch ofyn i'ch arbenigwr llygaid roi gwybod i CThEF fod gennych nam ar eich golwg, rhowch 'arbenigwr' ym mlwch 14.

**Blwch 15  Os ydych am gael lwfans eich priod neu'ch partner sifil sydd dros ben**

Dylech ond rhoi 'X' yn y blwch hwn os yw eich priod neu eich partner sifil yn hawlio'r Lwfans Person Dall ond nid oes ganddo ddigon o incwm trethadwy i'w ddefnyddio i gyd, ac rydych am hawlio'r hyn sydd dros ben.

**Blwch 16  Os ydych am i'ch priod neu'ch partner sifil gael eich lwfans chi sydd dros ben**

Dylech ond rhoi 'X' yn y blwch hwn os ydych yn hawlio'r lwfans ond yn methu â'i ddefnyddio i gyd, a'ch bod am roi'r hyn sydd dros ben i'ch priod neu eich partner sifil.

Os ydych yn rhoi 'X' ym mlwch 15 neu flwch 16, rhowch wybod i ni beth yw enw a rhif Yswiriant Gwladol eich priod neu bartner sifil yn 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen TR 7.

## Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr a Benthyciad Ôl-raddedig

Bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) yn ysgrifennu atoch i roi gwybod y dyddiad y dylech ddechrau ad-dalu eich ad-daliad sy'n amodol ar incwm. O'r dyddiad hwnnw bydd yn rhaid i chi lenwi'r blychau Benthyciad Myfyriwr a/neu'r blychau Benthyciad Ôl-raddedig. Defnyddiwn y math o fenthyciad a/neu'r math o gynllun sydd gan yr SLC er mwyn cyfrifo unrhyw ad-daliad Benthyciad Myfyriwr a/neu Fenthyciad Ôl-raddedig.

I gael rhagor o wybodaeth am ad-dalu'ch Benthyciad Myfyriwr, ewch i www.gov.uk/guidance/tell-hmrc-about-a-student-loan-in-your-tax-return.cy a www.gov.uk/ad-dalu-eich-benthyciad-myfyrwyr

**Blychau 1 i 3**

Rhowch 'X' ym mlwch 1 os cawsoch lythyr gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn rhoi gwybod i chi bod ad-daliadau benthyciad sy'n amodol ar incwm wedi dechrau cyn 6 Ebrill 2026.

Ym mlwch 2, rhowch gyfanswm yr holl ddidyniadau Benthyciad Myfyriwr a gymerwyd o bob cyflogaeth TWE. Bydd yr wybodaeth hon i'w gweld ar eich P60 a'ch slipiau cyflog.

Ym mlwch 3, rhowch gyfanswm yr holl ddidyniadau Benthyciad Ôl-raddedig a gymerwyd o bob cyflogaeth TWE. Bydd yr wybodaeth hon i'w gweld ar eich P60 a'ch slipiau cyflog.

## Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel

Llenwch yr adran hon os, yn ystod blwyddyn dreth 2025 i 2026:

- roedd eich incwm wedi'i addasu dros £60,000
- roedd eich incwm wedi'i addasu yn fwy nag incwm wedi'i addasu eich partner, a naill ai
  – cawsoch chi neu'ch partner Budd-dal Plant, neu
  – gwnaeth rhywun arall hawlio Budd-dal Plant ar gyfer plentyn a oedd yn byw gyda chi

I gael help wrth gyfrifo'ch incwm net wedi'i addasu, ewch i www.gov.uk/guidance/adjusted-net-income.cy

Os ydych wedi gwneud hawliad i ddefnyddio'r gyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 ar dudalennau 'Preswylfa, cyfundrefn incwm ac enillion tramor (FIG) ac ati', bydd unrhyw incwm tramor yr hawliwyd rhyddhad ar ei gyfer yn cyfrif tuag at eich incwm net wedi'i addasu. Mae hyn yn golygu, os yw cyfanswm eich incwm, gan gynnwys incwm tramor a ryddhawyd, yn fwy na £60,000 mae'n bosibl y byddwch yn agored i dalu'r Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel.

**Blwch 1**

Rhowch gyfanswm y taliadau Budd-dal Plant a gawsoch chi neu'ch partner ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026.

Os gwnaethoch chi a'ch partner ddechrau byw gyda'ch gilydd neu roi'r gorau i fyw gyda'ch gilydd yn ystod y flwyddyn dreth, roedd incwm eich partner dros £60,000 ac yn fwy na'ch incwm chi, yna nodwch swm y Budd-dal Plant a gawsoch tra oeddech yn byw ar eich pen eich hun. Bydd angen i'ch partner nodi ar ei Ffurflen Dreth swm y Budd-dal Plant a gafwyd pan oeddech yn byw gyda'ch gilydd. Bydd angen i'ch partner fod wedi cofrestru ar gyfer Hunanasesiad i wneud hyn.

Peidiwch â chynnwys unrhyw daliadau o ôl-ddyledion a gafwyd sy'n ymwneud â blynyddoedd treth blaenorol. Dyma swm y Budd-dal Plant am wythnos gyfan, pan fod dydd Llun yn syrthio o fewn y flwyddyn dreth.

Ar gyfer y flwyddyn dreth 2025 i 2026, mae'r wythnos gyntaf yn dechrau ar ddydd Llun 7 Ebrill 2025 a'r wythnos olaf yn dechrau ar ddydd Llun 30 Mawrth 2026. Mae yna 52 dydd Llun yn ystod blwyddyn dreth 2025 i 2026. Os cawsoch daliadau ar gyfer y flwyddyn lawn, rhowch y cyfanswm am 52 wythnos ym mlwch 1.

Hefyd, ym mlwch 1, rhowch swm y Budd-dal Plant a gafwyd gennych os gwnaethoch chi neu eich partner:

- ddechrau cael taliadau Budd-dal Plant ar neu ar ôl 6 Ebrill 2025 – rhowch y swm a gawsoch o'r dyddiad y dechreuodd y taliadau hyd at 5 Ebrill 2026
- gorffen cael taliadau Budd-dal Plant cyn 6 Ebrill 2026 – rhowch y swm a gawsoch hyd at y dyddiad hwnnw

**Blwch 2**

Rhowch nifer y plant y cawsoch chi neu eich partner taliadau Budd-dal Plant ar eu cyfer ar 5 Ebrill 2026.

**Blwch 3**

Os gwnaethoch chi neu'ch partner orffen cael taliadau Budd-dal Plant cyn 6 Ebrill 2026 (ond ar ôl 5 Ebrill 2025), rhowch y dyddiad y daeth y taliadau i ben ym mlwch 3.

Os oes rhaid i chi dalu'r Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel ar gyfer blwyddyn dreth 2026 i 2027, ac os nad ydych am i ni ei gasglu drwy'ch pensiwn neu'ch cyflog drwy addasu'ch cod treth ar gyfer 2026 i 2027 yn ystod y flwyddyn, rhowch 'X' ym mlwch 3 ar dudalen TR 6.

> I gael help gyda chyfrifo eich taliadau Budd-dal Plant a gafwyd, ewch i www.gov.uk/child-benefit-tax-calculator
>
> I gael rhagor o wybodaeth am y Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel, ewch i www.gov.uk/tal-treth-budd-dal-plant

## Taliad Tanwydd Gaeaf (WFP) a Thaliad Gwresogi Gaeaf i Bobl o Oedran Pensiwn (PAWHP)

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, efallai eich bod wedi cael rhwng £100 a £300 i'ch helpu i dalu eich biliau gwres. Gelwir hyn yn 'Taliad Tanwydd Gaeaf' (WFP). Bydd y mwyafrif o bobl dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth wedi cael yr WFP yn awtomatig. I wirio a oeddech yn gymwys i gael y taliad hwn, ewch i www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf/cymhwysedd

Os ydych yn byw yn yr Alban, efallai y cawsoch rhwng £101.70 a £305.10 i'ch helpu i dalu eich biliau gwres. Gelwir hyn yn 'Taliad Gwresogi Gaeaf i Bobl o Oedran Pensiwn' (PAWHP). Bydd y mwyafrif o bobl dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth wedi cael y PAWHP yn awtomatig. I wirio a oeddech yn gymwys i gael y taliad hwn, ewch i www.mygov.scot/pension-age-winter-heating-payment

Os yw cyfanswm eich incwm dros £35,000, mae'n bosibl y byddwch yn agored i'r tâl WFP neu PAWHP. I gyfrifo a ydych yn agored i'r tâl hwn, ewch i https://www.tax.service.gov.uk/guidance/check-if-hmrc-will-take-back-your-winter-payment/start/country

Os cawsoch fudd-dal cymhwysol yn ystod yr wythnos gymhwysol (yr wythnos a ddechreuodd ar drydydd Dydd Llun mis Ionawr) nid oes angen i chi gynnwys y taliad yn eich Ffurflen Dreth. Mae'r budd-daliadau cymhwysol fel a ganlyn:

- Credyd Pensiwn
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ymwneud ag incwm
- Credyd Cynhwysol

**Blwch 1**

Os oedd cyfanswm eich incwm dros £35.000, ac nid oeddech yn cael unrhyw fudd-daliadau cymhwysol, rhowch swm yr WFP a gawsoch gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, neu swm y PAWHP a gawsoch gan Nawdd Cymdeithasol yr Alban, ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 yn y blwch hwn.

## Lwfans Priodasol

Os oedd eich enillion o 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026 yn llai na £12,570 (ynghyd â hyd at £6,000 mewn llog ar gynilion), gallech elwa fel cwpl os byddwch yn trosglwyddo £1,260 o'ch lwfans personol. Mae'n rhaid i chi lenwi blychau 1 i 5 a rhoi'ch dyddiad geni ym mlwch 1 ar dudalen TR 1.

Trwy drosglwyddo £1,260 o'ch lwfans personol i'ch priod neu'ch partner sifil i ostwng swm y dreth y maent yn ei dalu gan hyd at £252, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu rhywfaint o dreth eich hun. Er mwyn gallu elwa, rhaid i'r canlynol i gyd fod yn berthnasol:

- roeddech yn briod, neu mewn partneriaeth sifil, â'r un person am y flwyddyn dreth gyfan neu am ran ohoni
- nid ydych yn hawlio Lwfans Pâr Priod
- ni chafodd incwm eich partner ei drethu ar gyfradd nad oedd y gyfradd sylfaenol, y gyfradd gyffredin difidend neu'r gyfradd gychwynnol ar gyfer cylinion

Os ydych wedi gwneud hawliad am incwm tramor, hawliad am enillion tramor neu ddewis Rhyddhad Diwrnod Gwaith Tramor (OWR) ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026 o dan y gyfundrefn FIG, byddwch yn colli'ch hawl i gael Lwfans Priodasol ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026.

> Defnyddiwch y gyfrifiannell Lwfans Priodasol er mwyn gweld a allwch elwa - ewch i www.gov.uk/lwfans-priodasol
>
> I gael rhagor o wybodaeth am lwfansau personol a chyfraddau treth, ewch i www.gov.uk/cyfraddau-treth-incwm

Os nad ydych yn byw yn y DU, ond rydych yn ddinesydd gwlad arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), gallwch wneud trosglwyddiad o hyd ond rhaid i'ch incwm byd-eang (mewn punnoedd y DU) fod yn llai na'ch lwfans personol er mwyn i chi fod yn gymwys i wneud hyn.

Os ganed chi neu'ch partner cyn 6 Ebrill 1935, efallai y gallwch elwa fel cwpl drwy hawlio Lwfans Pâr Priod yn hytrach na Lwfans Priodasol. Ni allwch gael y ddau.

> I gael rhagor o wybodaeth am y Lwfans Pâr Priod, ewch i www.gov.uk/lwfans-par-priod

## Gorffen eich Ffurflen Dreth

### Cyfrifo eich treth

Os byddwn yn cael eich Ffurflen Dreth bapur erbyn y dyddiad cau, byddwn yn cyfrifo p'un a oes gennych unrhyw dreth i'w thalu ac yn rhoi gwybod i chi cyn 31 Ionawr 2027. Byddwn yn anfon cyfrifiad treth atoch a fydd hefyd yn rhoi gwybod os oes gennych daliadau ar gyfrif i'w gwneud ar gyfer blwyddyn dreth 2026 i 2027.

> I gael rhagor o wybodaeth am daliadau ar gyfrif, ewch i www.gov.uk/deall-eich-bil-treth-hunanasesiad/taliadau-ar-gyfrif

Os ydych am gyfrifo swm y dreth sydd arnoch neu all gael ei ad-dalu i chi, defnyddiwch 'Canllaw bras i'ch bil treth' ar dudalen TRG 18 y nodiadau hyn. Nid yw'r canllaw yn ystyried unrhyw daliadau ar gyfrif rydych eisoes wedi'u gwneud tuag at eich bil treth Hunanasesiad ar gyfer 2025 i 2026.

### Treth wedi'i had-dalu neu wedi'i gwrthbwyso

**Blwch 1**

Os ydych wedi cael ad-daliad treth oherwydd eich bod wedi gwneud y canlynol:

- rhoi'r gorau i weithio ac wedi gwneud cais am ad-daliad yn y flwyddyn o dreth a dalwyd ar eich
  - cyflogaeth
  - hunangyflogaeth yng Nghynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS)
- hawlio'r dreth a dalwyd gennych ar incwm o bensiwn pitw
- cyflwyno Ffurflen Dreth yn ystod y flwyddyn er mwyn hawlio ad-daliad ar dreth a dalwyd
- wedi cael ad-daliad o'r ganolfan byd gwaith ar ôl 6 Ebrill

rhowch y swm a ad-dalwyd yn y blwch.

Os ydych yn diwygio'ch Ffurflen Dreth, peidiwch â chynnwys ad-daliad yr ydych wedi ei gael gennym ar ôl i chi gyflwyno'ch Ffurflen Dreth wreiddiol.

### Os nad ydych wedi talu digon o dreth

**Blwch 2**

Os oes arnoch lai na £3,000 o dreth ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026, byddwn yn ceisio'i chasglu drwy eich cyflog neu'ch pensiwn o 6 Ebrill 2027 ymlaen. Gallwn dim ond gwneud hyn os anfonwch eich Ffurflen Dreth bapur atom erbyn 31 Hydref 2026 neu os byddwch yn cyflwyno ar-lein erbyn 30 Rhagfyr 2026 ac:

- mae gennych ddigon o gyflog neu bensiwn i gasglu'r dreth sydd arnoch
- nid yw'n dyblu swm y dreth a dalwch ar yr incwm hwn
- nid yw'n achosi i chi dalu mwy na hanner yr incwm hwn mewn treth

Ni allwn gasglu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 2 fel hyn gan y gall effeithio ar eich ceisiadau am fudd-daliadau penodol.

Y dyddiad cau ar gyfer talu CYG Dosbarth 2 yw 31 Ionawr 2027.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/yswiriant-gwladol

Dylech ond rhoi 'X' ym mlwch 2 os nad ydych am i ni wneud hyn, a byddai'n well gennych dalu unrhyw dreth drwy eich Hunanasesiad erbyn 31 Ionawr 2027.

**Blwch 3**

Os yw'n debygol y bydd arnoch dreth ar y canlynol:

- taliadau Budd-dal Plant (y Tâl Treth Budd-dal Plant Incwm Uchel)
- incwm o fuddsoddiadau neu gynilion
- incwm o eiddo
- enillion achlysurol neu gomisiwn

ar gyfer blwyddyn dreth 2025 i 2026, byddwn yn ceisio ei chasglu drwy eich cyflog neu bensiwn o 6 Ebrill 2026 ymlaen.

Os yw'r incwm yn fwy na £10,000, ni fyddwn yn gwneud hyn fel arfer.

Dylech ond rhoi 'X' ym mlwch 3 os nad ydych am i ni wneud hyn, a byddai'n well gennych dalu unrhyw dreth drwy eich Hunanasesiad erbyn 31 Ionawr 2028.

> I gael rhagor o wybodaeth am dalu'n uniongyrchol i ni, ewch i www.gov.uk/taluch-bil-treth-hunanasesiad

## Os ydych wedi talu gormod o dreth

Os ydych wedi talu eich treth gan ddefnyddio cerdyn credyd neu gerdyn debyd, byddwn bob amser yn ceisio ad-dalu'r arian i'ch cerdyn yn gyntaf, cyn gwneud unrhyw ad-daliad y gofynnir amdano ym mlychau 4 i 14.

Os ydych wedi talu'ch taliadau ar gyfrif ar gyfer 2026 i 2027 o flaen eu dyddiadau dyledus, peidiwch â llenwi blychau 4 i 14 oherwydd mae'n bosibl y byddwn yn eu had-dalu.

### Blychau 4 i 8

Llenwch fanylion eich cyfrif yn ofalus. Os byddant yn anghywir, bydd oedi cyn y cewch eich ad-daliad. Os oes gennych enwebai, rhowch fanylion ei gyfrif ym mhob un o'r blychau.

### Blwch 5 Enw deiliad y cyfrif

Bydd enw'r cyfrif ar eich cyfriflenni neu eich llyfr sieciau. Os mai cyfrif ar y cyd sydd gennych, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r ddau enw.

### Blychau 6 a 7

Bydd cod didoli eich cangen a rhif y cyfrif ar eich cyfriflenni neu eich llyfr sieciau. Gwnewch yn siŵr bod nifer y digidau'r un peth ag ar eich cyfrif.

### Blwch 8 Cyfeirnod y gymdeithas adeiladu

Efallai y bydd gan eich cyfrif gyfeirnod ychwanegol. Gallai gael ei alw'n rhif rôl, cyfeirnod cyfrif neu'n rhif y cyfrif. Llenwch flwch 8 dim ond os ydych wedi gofyn i ni anfon ad-daliad i'ch cymdeithas adeiladu.

### Blwch 9 Os nad oes gennych gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu

Rhowch 'X' yn y blwch os nad oes gennych gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu, neu os na allwch ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, a byddwn yn anfon siec atoch.

### Blychau 10 i 14

Dylech lenwi blychau 10 i 14 dim ond os ydych wedi cynnwys manylion cyfrif eich enwebai ym mlychau 4 i 9.

## Eich ymgynghorydd treth, os oes gennych un

### Blwch 15 Enw eich ymgynghorydd treth

Rhowch enw eich ymgynghorydd treth i ni. Os yw'n gweithio i gwmni, rhowch enw'r cwmni ym mlwch 15.

## Gwybodaeth ychwanegol

### Blwch 19 Rhowch unrhyw wybodaeth arall yn y fan hon

Gallai hyn gynnwys manylion bellach o'r canlynol:

- unrhyw log tramor sydd heb ei drethu, hyd at £2,000
- unrhyw amcangyfrifon rydych wedi'u defnyddio
- enw a rhif Yswiriant Gwladol eich priod neu'ch partner sifil

Ni chaiff y ffigurau a nodir yn y blwch hwn eu cynnwys yn eich cyfrifiad treth. Dylid nodi unrhyw ffigurau sy'n effeithio ar y dreth sydd angen i chi ei thalu yn yr adran gywir ar eich Ffurflen Dreth.

## Llofnodi eich ffurflen a'i dychwelyd

Dylech sicrhau eich bod yn llofnodi a dyddio'r ffurflen eich hun. Os byddwch yn anghofio, ni allwn ei derbyn a bydd rhaid i ni ei dychwelyd atoch.

### Blwch 20 Os yw'r Ffurflen Dreth hon yn cynnwys ffigurau a amcangyfrifwyd neu rai dros dro

Rhowch 'X' yn y blwch dim ond os ydych wedi defnyddio ffigurau dros dro ac rydych yn bwriadu anfon ffigurau terfynol cyn gynted ag y gallwch. Rhaid i chi roi gwybod i ni yn 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen TR 7, pam yr ydych wedi defnyddio symiau dros dro, a phryd yr ydych yn disgwyl rhoi'ch ffigurau terfynol i ni.

Peidiwch â rhoi 'X' ym mlwch 20 os ydych wedi defnyddio ffigurau amcangyfrifedig, ond rhowch wybod i ni yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' y rheswm eich bod wedi gwneud hyn.

### Blychau 23 i 26

Bydd angen i chi lenwi'r blychau hyn dim ond os yw'r canlynol yn berthnasol:

- rydych yn ysgutor sy'n delio ag ystâd person ymadawedig o 6 Ebrill 2025 hyd at y dyddiad y bu farw
- rydych wedi'ch penodi gan lys yn y DU i lenwi Ffurflen Dreth ar ran rhywun nad oes ganddo'r gallu meddyliol i'w deall hi
- mae gennych bŵer atwrnai parhaol, neu arhosol, i weithredu ar ran rhywun nad oes ganddo'r gallu corfforol neu feddyliol i lenwi Ffurflen Dreth

Os nad ydych eisoes wedi anfon tystiolaeth o'ch penodiad, anfonwch y ddogfen wreiddiol, neu gopi ardystiedig, gyda'r Ffurflen Dreth hon.

Dylai copi ardystiedig fod wedi ei lofnodi a'i ardystio i fod yn gopi cywir a chyflawn, ar bob tudalen, gan naill ai rhoddwr y pŵer, cyfreithiwr neu stocbrocer. Byddwn yn ei anfon yn ôl atoch cyn pen 15 diwrnod gwaith.

Fel arall, os oes gennych god mynediad ar gyfer gwasanaethau ar-lein Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, gallwch roi'r cod i CThEF dros y ffôn a gallwn wirio statws eich pŵer atwrnai arhosol ar-lein.

> I gael rhagor o wybodaeth ynghylch rhoi gwybod i CThEF am bŵer atwrnai arhosol dros y ffôn, ewch i www.gov.uk/penodi-asiant-treth

## Rhagor o gymorth os bydd ei angen arnoch

I gael copïau o unrhyw Ffurflenni Treth neu daflenni cymorth, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-treth-hunanasesiad

Gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 i gael cymorth gyda'ch Ffurflenni Treth

## Canllaw bras i'ch bil treth

Nid yw hwn yn fanwl gywir ond bydd yn dangos a oes gennych unrhyw dreth i'w thalu erbyn 31 Ionawr 2027 neu a oes arnom ad-daliad i chi. Nid yw'n cymryd i ystyriaeth trosglwyddo Lwfans Priodasol, ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr, Tâl Budd-dal Plant neu Ryddhad Credyd Treth Tramor.

### Lwfans Personol

**£12,570** - os yw cyfanswm eich incwm rhwng £100,000 a £125,140, dylech ostwng £12,570 gan £1 am bob £2 mae eich incwm yn fwy na £100,000. Os yw cyfanswm eich incwm yn £125,140 neu fwy, bydd y Lwfans Personol yn sero. Lwfans Person Dall, os caiff ei hawlio, yw £3,070.

### Haenau cyfraddau treth

*gellir cynyddu £11,685 a £37,700 gan unrhyw daliadau pensiwn personol (blwch 1 ar dudalen TR 4) a Rhodd Cymorth wedi ei grosio (blwch 5 llai blwch 7 + blwch 8 ar dudalen TR 4 x 100/80). Mae Treth Incwm ym mlwch 1 yn defnyddio'r haenau treth £0 i £37,700* a'r £112,300* nesaf yn gyntaf, yna cynilion, difidendau ac Enillion Cyfalaf.

*Os ydych yn drethdalwr yn yr Alban, mae'n bosibl bydd yr haenau a'r cyfraddau ar gyfer Treth Incwm yn yr Alban yn wahanol i weddill y DU.

Ar gyfer cwsmeriaid yn yr Alban, yr haenau treth ar gyfer incwm ym mlychau 1 i 3 yn unig yw *£2,306, *£11,685, *£17,101, *£31,338 a *£62,710.

### Lwfans cynilion

- rydych yn gymwys ar gyfer £1,000. Ond os yw'ch incwm yn drethadwy ar 40%/42% (blwch 5) neu 33.75% (blwch 7), mae'n £500, neu, os yw'n drethadwy ar 45%/48%/39.5%, mae'n 0.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i apelio.

## Canllaw bras i'ch bil treth

**1 Adiwch eich incwm at ei gilydd** Peidiwch â chynnwys unrhyw incwm o gynilion na difidendau cwmnïau — 1 £

**2 Incwm llai didyniadau a lwfansau**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfraniadau pensiwn a chyfraniadau blwydd-dal ymddeol (blychau 2, 3 a 4 ar dudalen TR 4) | £ | | |
| Gwerth y cyfranddaliadau, gwarantau, tir a roddwyd i elusen (blychau 9 a 10 ar dudalen TR 4) | £ | | |
| Lwfans Personol (gweler tudalen 15) + Lwfans Person Dall | £ | 2 | £ |

**3 Cyfrifwch y dreth sy'n ddyledus ar flwch 2**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y £2,306* cyntaf ym mlwch 2 x 19% | £ | | |
| Y £11,685*/£37,700 nesaf ym mlwch 2 x 20% | £ | | |
| Y £17,101* nesaf ym mlwch 2 x 21% | £ | | |
| Y £87,440*/£31,338 nesaf ym mlwch 2 x 40% neu 42% | £ | | |
| Y £62,710*/y gweddill ym mlwch 2 x 45% | £ | | |
| Y gweddill ym mlwch 2 x 48%* | £ | 3 | £ |

**4 a 5 Adiwch eich incwm o gynilion at ei gilydd a cyfrifwch y dreth**

| | | | |
|---|---|---|---|
| (llai unrhyw ddidyniadau a lwfansau nas defnyddiwyd ym mlwch 2) | 4 £ | | |
| Swm yn y gyfradd gychwynnol hyd at £5,000 (£17,570 llai'r swm ym mlwch 1) x 0% | £ | | £0.00 |
| Swm yn y gyfradd sero - lwfans cynilion (£1,000, £500 neu £0) x 0% | £ | | £0.00 |
| Y swm sy'n agored i dreth<br>x 20%, 40% neu 45% (gweler blwch 3 ar gyfer symiau sydd ar gael yn haenau cyfradd) | £ | 5 | £ |

**6 a 7 Adiwch incwm o ddifidendau at ei gilydd a cyfrifwch y dreth**

| | | | |
|---|---|---|---|
| (llai unrhyw ddidyniadau a lwfansau a ddefnyddiwyd ym mlychau 2 a 4) | 6 £ | | |
| Swm yn y gyfradd sero - lwfans difidend (£500) | £ | | £0.00 |
| Y swm sy'n agored i dreth<br>(gweler blychau 3 a 5 ar gyfer symiau sydd ar gael yn haenau cyfradd) (8.75%, 33.75% or 39.35%) | £ | 7 | £0.00 |

**8 a 9 Os ydych yn hunangyflogedig neu mewn partneriaeth**

| | | | |
|---|---|---|---|
| CYG Dosbarth 4 ar elw (llai £12,570) x 6% hyd at uchafswm o £37,700 x 6% = £2,262 | £ | | |
| Y gweddill x 2% | £ | 8 | £ |
| Cyfrifwch CYG Dosbarth 2 ar gyfradd o £3.45 yr wythnos | | 9 | £ |

**10 Treth Enillion Cyfalaf (ar enillion dros £3,000)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enillion eraill x 10% hyd at 29 Hydref, ac 18% o 30 Hydref ymlaen + enillion eiddo preswyl x 18% hyd at swm yr haen gyfradd sylfaenol nas defnyddiwyd (os o gwbl) | £ | | |
| Enillion eraill x 20% hyd at 29 Hydref, ac 24% o 30 Hydref ymlaen + enillion eiddo preswyl x 24% ar enillion sy'n uwch na'r gyfradd sylfaenol | £ | | |
| Enillion sy'n gymwys i gael Rhyddhad Gwaredu Ased Busnes a Rhyddhad Buddsoddwyr x 10% | £ | 10 | £ |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** adiwch flychau 3, 5, 7, 8, 9 a 10 at ei gilydd | 11 | £ |
| **Llai unrhyw dreth a dalwyd –** o gyflogaeth (P60 neu P45),<br>neu o incwm masnachu (didyniadau ar gyfer isgontractwyr) ac ati | 12 | £ |
| **Cyfanswm y bil treth** blwch 11 llai blwch 12 | 13 | £ |

Nid yw hwn yn fanwl gywir ond bydd yn dangos a oes gennych unrhyw dreth i'w thalu erbyn 31 Ionawr 2027 neu a oes arnom ad-daliad i chi. Nid yw'n cymryd i ystyriaeth trosglwyddo'r Lwfans Priodas, ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr, Tâl Budd-dal Plant neu Ryddhad Credyd Treth Tramor ac yn y blaen. Er bod y didyniadau a'r lwfansau yn cael eu rhoi yn y ffordd fwyaf buddiol i'r rhan fwyaf o gwsmeriaid, ni all wneud hyn ym mhob achos.